| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **25 Chwefror 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Barbara Smith** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Linda Atkin, Pennaeth Adnoddau Dynol** |
| **Teitl:** | **Polisïau a Gweithdrefnau** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn ymwneud â dau bolisi Adnoddau Dynol a ddatblygwyd yn ddiweddar:

a) Polisi Cam-drin Domestig, Trais yn erbyn Merched a Thrais Rhywiol.

b) Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (Polisi Swyddfa Gofnodion Troseddol gynt)

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I dderbyn cymeradwyaeth y Cyngor Llawn i fabwysiadu'r ddau bolisi ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor Llawn yn cytuno i fabwysiadu'r polisïau canlynol:

c) Polisi Cam-drin Domestig, Trais yn erbyn Merched a Thrais Rhywiol.
d) Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

## 4. Manylion yr adroddiad.

**Polisi Cam-drin Domestig, Trais yn erbyn Merched a Thrais Rhywiol**

Comisiynodd Llywodraeth Cymru'r Prosiect 10,000 o Fywydau Mwy Diogel i sicrhau bod pob darparwr gwasanaeth a sefydliadau perthnasol yn gallu adnabod arwyddion cam-drin domestig ac yn gallu cefnogi unigolion sy'n dioddef cam-drin domestig yn effeithiol.

Fel rhan o'r prosiect hwn mae angen i'r Cyngor gyflwyno Polisi Cam-drin Domestig, Trais yn erbyn Merched a Thrais Rhywiol. Mae'r polisi yn seiliedig ar bolisi safonol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Y categorïau a ddefnyddir yw'r rhai a ddiffinnir gan Brosiect 10,000 o Fywydau Mwy Diogel a dyna pam mae categori penodol yn ymwneud â thrais yn erbyn merched.

Mae'r polisi yn nodi sut mae Cyngor Sir Ddinbych yn condemnio unrhyw fath o gam-drin domestig, trais yn erbyn merched a thrais rhywiol ac yn cydnabod ei bod yn drosedd ac yn annerbyniol.

Mae'n rhoi manylion ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu diwylliant yn y gweithle lle nad oes goddefgarwch ar gyfer cam-drin domestig, trais yn erbyn merched a thrais rhywiol ac yn cydnabod bod y cyfrifoldeb am hyn yn gorwedd gyda'r troseddwr.

Rydym hefyd yn dymuno anfon neges gref bod cam-drin domestig, trais yn erbyn merched a thrais rhywiol yn annerbyniol.

Mae'r polisi yn manylu ar gyfrifoldeb Rheolwyr, AD a gweithwyr eraill, ynghyd â pha gymorth y gall y dioddefydd/ goroeswr ei ddisgwyl gan y Cyngor. Mae'n rhoi canllawiau clir i reolwyr ar yr hyn y dylent ei wneud os bydd gweithiwr yn datgelu iddyn nhw eu bod wedi bod yn destun cam-drin domestig, trais neu drais rhywiol.

Rhan ddefnyddiol iawn o'r ddogfen hon yw'r cymorth ymarferol y gall y Cyngor ei gynnig i weithiwr a fydd yn sicrhau bod y rhai sy'n dioddef cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gallu gweithio mewn gweithle diogel sy’n eu cefnogi.

Mae copi o’r polisi arfaethedig wedi ei atodi yn Atodiad 1.

**Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Mae gan Gyngor Sir Ddinbych ddyletswydd i sicrhau addasrwydd pawb y mae'n eu cyflogi beth bynnag eu swydd. Mae arferion recriwtio priodol yn rhan hanfodol o ddiogelu cleientiaid diamddiffyn y Cyngor.

Fel rhan o’i weithdrefnau recriwtio mae’r Cyngor yn defnyddio gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd lle bo'n briodol ac wedyn yn gwneud penderfyniad ynglŷn â chyflogi’r person hwnnw.

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi disodli’r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA) ac mae'r polisi hwn wedi ei ddatblygu i adlewyrchu’r newidiadau sydd angen eu gwneud o ganlyniad i'r uno hwn. Mae'r polisi newydd yn cydymffurfio â Chod Ymarfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Y prif newid polisi o fewn y ddogfen hon yw'r cynnydd yn y cyfnod rhwng gwiriadau. Ar gyfer pob swydd sy'n gofyn am Dystysgrif Datgeliad, mae'r Cyngor yn gofyn i bob deilydd swydd gael gwiriad pob pedair blynedd (pob 3 blynedd gynt). Fodd bynnag, yn unol ag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru bydd yn rhaid i rai gweithwyr barhau i gael gwiriad pob 3 blynedd er mwyn bodloni eu gofynion cofrestru. Bydd Llywodraethwyr ysgol yn cael gwiriad ar adeg eu penodi.

Mae newidiadau eraill wedi eu cyflwyno o ganlyniad i ddiffiniad Reoliadau Deddf Diogelu Grwpiau o weithgaredd a reoleiddir ar gyfer Plant ac Oedolion. O ganlyniad i hyn mae gofyn i Benaethiaid Gwasanaeth adolygu pob swydd o fewn eu gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau newydd.

Mae'r polisi newydd yn pwysleisio na ddylai unrhyw weithiwr ddechrau ei swydd heb y gwiriadau angenrheidiol. Fodd bynnag, mae'n cydnabod y gall hyn fod yn ofynnol mewn amgylchiadau eithriadol ac mae wedi cyflwyno proses asesu risg ar gyfer amgylchiadau o'r fath. Bydd yn rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth / Pennaeth gymeradwyo'r broses hon.

Mae copi o'r polisi arfaethedig wedi ei atodi yn Atodiad 2.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd cytuno ar a gweithredu'r Polisi Cam-drin Domestig yn cyfrannu tuag at rwymedigaeth gyfreithiol y Cyngor i sicrhau bod gweithwyr ag amgylchedd gwaith diogel.

Mae yna hefyd botensial iddo gyfrannu tuag at flaenoriaeth y Cyngor i leihau lefelau absenoldeb oherwydd salwch o fewn y gwasanaethau.

Bydd y Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau diogelu.

**6. Faint fydd cost hyn a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gost ychwanegol yn gysylltiedig â gweithredu'r polisïau.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi gael ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad.**

Mae copïau o'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ynghlwm wrth Atodiad 3 er gwybodaeth.

**8. Pa ymgynghori a gwblhawyd gydag Archwilio ac eraill?**

Dosbarthwyd ac ymgynghorwyd ynglŷn â'r newidiadau i'r polisi gydag Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor a chyda'r Undebau Llafur sy'n cael eu cydnabod.
Cafodd y ddwy ddogfen eu cyfeirio at y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol ar 12 Chwefror 2014 ac argymhellodd y Cydbwyllgor y dylai'r Cyngor Llawn eu mabwysiadu.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau cost yn deillio o gyflwyno'r polisïau hyn.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risg yn gysylltiedig â gweithredu'r polisïau hyn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Daw'r pŵer i wneud y penderfyniad o Adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972